**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mawrth 1 Mai 2018; 12.00 – 2.00pm**
**Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd**

| | |
|---|---|
| <u>**Mynychwyr**</u> | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Maria Battle (**Is-gadeirydd**) | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) |
| Paul Orders | Prif Weithredwr Cyngor Caerdydd |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr – Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau CC |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Dai Bents | Rheolwr Grŵp Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Yr Uwch-arolygydd Stephen Jones | Heddlu De Cymru |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Victoria Harris | Pennaeth yr Uned Ddosbarthu Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Fiona Kinghorn | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Len Richards | Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Peter Greenhill | Pennaeth mewn Gofal Uned Cyflawni Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Sharon Hopkins | Dirprwy Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Mynychwyr eraill:** | |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro |
| Gareth Newell | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil CC |
| Nathan Swain (Clerc) | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau CC |

| | |
|---|---|
| Sereen Kutubi<br>Anne Wei<br><br>**Eitem 5**<br>Carolyne Palmer<br>Lisa Wood | Swyddog Polisi a Phartneriaethau CC<br>Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br><br>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Atal CC<br>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Lleol CC |

| Rhif | Eitem ar yr Agenda | |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel uchod. | |
| **2.** | **Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 27 Chwefror 2018**<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.<br><br>**Cofnodion Bwrdd Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Drafft – 8 Mawrth 2018**<br><br>Ni chodwyd unrhyw faterion. | |
| **3.** | **Cynllun Lles Caerdydd**<br><br>Dywedwyd wrth y Bwrdd fod yr holl bartneriaid statudol wedi cymeradwyo'r Cynllun Lles. Amlinellodd Gareth O'Shea gyd-destun llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cymeradwyo Cynllun Lles Caerdydd i'w gyhoeddi | |
| **4.** | **Trefniadau Adrodd a Llywodraethiant y Cynllun Lles**<br><br>Rhoddodd Gareth Newell amlinelliad o'r trefniadau llywodraethiant arfaethedig. Mewn perthynas â Thwf Gwydn nodwyd bod y drafodaeth ynghylch a oes angen bwrdd penodol yn dal i fynd rhagddi – cafodd hyn ei gyflwyno i Fwrdd Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Tynnodd Maria Battle sylw at y ffaith bod dal angen rhoi ystyriaeth i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhyngberthynas rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Dywedodd Gareth O'Shea fod rhaid i gynaliadwyedd fodoli drwy'r strwythur llywodraethiant yn hytrach na bod ar wahân.<br><br>Gofynnodd Sheila Hendrickson-Brown a fydd y Cynllun Cynrychiolaeth Trydydd Sector, sydd ar waith dan drefniadau cyflawni'r bartneriaeth flaenorol dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn parhau yn y trefniant newydd.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Ar y trefniadau llywodraethiant arfaethedig<br>• Ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob bwrdd<br>• Cyhoeddi adroddiad 'Caerdydd yn 2018' ynghyd â chynllun lles<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Cadarnhau'r rhyng-berthynas a threfniadau adrodd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>• Adolygu Cynllun Cynrychiolaeth y Trydydd Sector yng nghyd-destun y trefniadau cyflawni newydd<br>• | <br><br><br><br><br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br>**Gareth Newell**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| **5.** | **Un Pwynt Cyswllt – y Dull Ataliol**<br><br>Rhoddodd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, amlinelliad o Ddull Ataliol Un Pwynt Cyswllt.<br><br>Nodwyd y cynnydd a wnaed, yn enwedig o ran y ffocws aml-asiantaeth ar atal a rheoli galw ym mhob rhan o'r system a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.<br><br>Nodwyd cymhwysedd y model hefyd i wasanaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau i deuluoedd a'r blynyddoedd cynnar.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Ailedrych ar y gwaith hwn ymhen 12 mis | <br><br><br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth/Sarah McGill** |
| **6.** | **Adeiladu Cymunedau Gwydn: Ymgysylltu a Hybiau Lles Cymunedol**<br><br>Rhoddodd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, amlinelliad o'r Hybiau Lles Cymunedol. Wrth ddatblygu | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynigion newydd, bydd adolygiad yn cael ei gynnal o bob ardal o'r ddinas i ddeall y ddemograffeg leol, mapio gwasanaethau lleol ac adeiladau ac ymgynghorir â phreswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid lleol ynghylch eu blaenoriaethau.<br><br>Tynnwyd sylw at y ffaith y gellir rhoi ystyriaeth i Hybiau a chyfleusterau partner yn y cynllunio argyfwng a'r cynlluniau dilyniant busnes.<br><br>**CYTUNWYD**<br>• Bod y partneriaid yn cynnal adolygiadau o wasanaethau cymunedau<br>• Cynnal cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Hyb Lles yn y dyfodol | <br><br><br><br><br><br><br><br>**Pawb**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| **7.** | **Unrhyw fusnes arall**<br>**a) Digwyddiad Lansio Cynllun Lles**<br>Gwahodd Danny Khan Llywodraethwr CEM Caerdydd i'r lansiad.<br><br>**b) Gweithdy Twf Gwydn**<br>Dim camau gweithredu<br><br>**c) Cynllunio Ymlaen**<br><br>• Y ffocws ar ansawdd aer i'w gael ei wneud yn fwy amlwg yn y gwaith Teithio Llesol, ac i'w gyflwyno am ystyriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf.<br>• Ystyried project Trelái / Caerau mewn cyfarfod yn y dyfodol fel rhan o waith ehangach ar fynediad i wasanaethau cymorth cynnar i blant a theuluoedd.<br>Ystyried hyn ym mis Gorffennaf.<br><br>**d) Unrhyw fusnes arall**<br>Dim camau gweithredu | <br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br><br><br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| | **Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf:**<br><br>• Bwrdd Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:<br>• 5 Mehefin 2018 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd: 20 Gorffennaf 2018<br>• Digwyddiad Lansio Cynllun Lles:<br>8 Mai 2018, 16.00-18.00 | |

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llawn 1 Mai 2018 – Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

| Eitem | Camau Gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 2. | **Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>Cytunwyd ar y cofnodion | **Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| 3. | **Cynllun Lles Caerdydd**<br><br>**Cytunwyd:**<br>Cymeradwyo Cynllun Lles Caerdydd i'w gyhoeddi | **Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| 4. | **Trefniadau Adrodd a Llywodraethiant y Cynllun Lles**<br><br>**Cytunwyd:**<br>• Gweithredu'r trefniadau llywodraethiant arfaethedig<br>• Cymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob bwrdd<br>• Cyhoeddi adroddiad 'Caerdydd yn 2018' ynghyd â chynllun lles<br>**Cam Gweithredu:**<br>• Cadarnhau'r rhyng-berthynas a threfniadau adrodd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>• Adolygu Cynllun Cynrychiolaeth y Trydydd Sector yng nghyd-destun y trefniadau cyflawni newydd<br>• | **Yr Ysgrifenyddiaeth**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Gareth Newell**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| 5. | **Un Pwynt Cyswllt – y Dull Ataliol**<br><br>**Cytunwyd:**<br>• Ail-edrych ar Ddull Ataliol Pwynt Cyswllt Cyntaf ymhen 12 mis | **Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| 6. | **Adeiladu Cymunedau Gwydn: Ymgysylltu a Hybiau Lles Cymunedol**<br><br>**Cytunwyd:**<br>• Bod y partneriaid yn cynnal adolygiadau o wasanaethau cymunedau<br>• Cynnal cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Hyb Lles yn y dyfodol<br>• | **Pawb**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |
| 7. | **Unrhyw fusnes arall** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwahodd Danny Khan, Llywodraethwr CEM Caerdydd i'r Lansiad<br><br>Y ffocws ar ansawdd aer i'w gael ei wneud yn fwy amlwg yn y gwaith Teithio Llesol, ac i'w gyflwyno am ystyriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf.<br>Ystyried project Trelái / Caerau mewn cyfarfod yn y dyfodol (Gorffennaf) fel rhan o waith ehangach ar fynediad i wasanaethau cymorth cynnar i blant a theuluoedd. | **Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth** |